OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 3094 (Cy.273)

ANIFEILIAID, CYMRU

LLES ANIFEILIAID

Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*2 Rhagfyr 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*29 Hydref 2008*
Yn dod i rym - -	*3 Rhagfyr 2008*

Gweinidogion Cymru, o ran Cymru, yw'r awdurdod cenedlaethol priodol at ddibenion arfer y pwerau a roddwyd gan adran 5(4) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006(**1**), ac maent yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau hynny.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori yn unol ag adran 5(5) o'r Ddeddf honno.

Yn unol ag adran 61(2) o'r Ddeddf honno, mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) (Diwygio) 2008.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y'u gwneir.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygiadau i Reoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007

2. Diwygir Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007(**2**) fel a ganlyn.

(**1**) 2006 p. 45. Diffinnir yr awdurdod cenedlaethol priodol yn adran 62(1) o'r Ddeddf. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2007/1029 (Cy . 96).

Rheoliad 3

3. Yn rheoliad 3 (eithriadau i'r gwaharddiad ar anffurfio), yn lle is-baragraffau (c) ac (ch) rhodder —

"(c) mewn amgylchiadau hylan;

(ch) yn unol ag arferion da; ac

(d) yn unol â rheoliad 5, pan fo'n gymwys".

Rheoliad 4

4. Yn rheoliad 4(1) (cyflawni triniaethau gwaharddedig mewn argyfwng) hepgorer y geiriau "a warchodir".

Rheoliad 5

5. Yn lle rheoliad 5 (personau sy'n cael rhoi triniaethau a ganiateir) rhodder—

"**5.**—(1) Ac eithrio'r triniaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), ni cheir rhoi unrhyw driniaeth, a ganiateir o dan reoliad 3 ac y mae Deddf Milfeddygon 1966(**3**) neu Orchymyn Milfeddygon (Esemptiadau) 1962(**4**) yn gymwys iddi, ac eithrio gan berson y caniateir iddo ei rhoi o dan y ddeddfwriaeth honno.

(2) Caniateir tocio cynffonau neu ysbaddu moch naill ai gan filfeddygon yn unig neu, pan nad yw'r anifeiliaid yn hyn na 7 diwrnod oed, gan berson sy'n brofiadol yn y technegau cysylltiedig a naill ai'n berson sy'n gyfrifol am yr anifail neu'n berson a gyflogir neu a gymerir ymlaen gan berson o'r fath i drin yr anifail.".

Atodlen 1

6.—(1) Mae'r diwygiadau i Atodlen 1 (triniaethau a ganiateir) fel a ganlyn.

(2) Yn yr adran ar adar, yn lle'r rhestr o dan y pennawd "Triniaethau Adnabod" rhodder—

"Microsglodynnu.

Tagio gyddfau.

Bylchu gweoedd.

Tagio gweoedd.

Tagio adenydd.

Dulliau eraill o adnabod anifeiliaid sy'n cynnwys anffurfiad sy'n ofynnol gan y gyfraith.".

(3) Yn yr adran ar ddefaid, yn lle'r rhestr o dan y pennawd "Triniaethau ar gyfer Rheoli Atgenhedlu." rhodder—

"Ysbaddu.

Casglu neu drosglwyddo embryonau drwy ddull llawfeddygol.

Gosod dyfais atal cenhedlu o dan y croen.

Ffrwythloni laparosgopig.

Trawsblannu ofa, gan gynnwys casglu ofa, drwy ddull llawfeddygol.

Fasdoriad.".

(**3**) 1966 p. 36; yr offerynnau perthnasol sy'n diwygio yw O.S. 1988/526, 1991/1412, 2002/1479, 2008/1824.
(**4**) O.S. 1962/2557; yr offerynnau perthnasol sy'n diwygio yw O.S. 1973/308, 1982/1627, 1983/6, 2002/1646.